menter iaith
Sir Benfro

Menter yw hon i'n herio,
Rho hwb i'r iaith ar lawr bro.
W.O.

Nod Mentr Iaith Sir Benfro yw hybu ac ehangu defnydd o'r Gymraeg o fewn y sir.

Mwynheais yn fawr iawn y profiad o gyd-weithio gydag OGAM tuag at y arddangosfa llwyddiannus eleni ac rwy'n ymfalchïo fod y mudiad gennym yma yn Sir Benfro.

Wynmor Owen, Artsit Lleol

Cafwyd pob cymorth yn ystod wythnos o weithgareddau 'Cymraeg yn Gyntaf' a gynhaliwyd yn Ysgol Croesgoch. Pleser mawr oedd tystio i ymateb yr holl blant a'u parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol gydol yr wythnos.

Jayne Evans, Prifathrawes
Ysgol Gynradd Croesgoch

Mewn partneriaeth â Menter Iaith Sir Benfro rwyf wedi cael arwydd newydd ddwyieithog. Gobeithiaf yn fawr bydd busnesau eraill yn yr ardal yn dilyn – mae'r heniaith yn bwysig!
Lilwen Mc Allister,

Perchennog Gwely a Brecwast

Helpwch ni i ddiogleu dyfodol yr iaith yn ein broydd drwy gefnogi gwaith y fenter.

menter iaith
Sir Benfro

Am fwy o fanylion cysylltwch â:
Menter Iaith Sir Benfro
17 Y Wesh, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9AL
Ffôn/Ffacs: 01348 873700
Ebost: ymholiad@mentersirbenfro.com

Menter Iaith Sir Benfro
Tŷ'r Ysgol, Ysgol y Preseli, Crymych, Sir Benfro SA41 3QH
Ffôn: 01239 831129
Ffacs: 01239 831902
Ebost: mentersirbenfro@btinternet.com

Beth allwn ni ei gynnig i chi?

- Help ymarferol, yn aml yn rhad ac am ddim
- Gwasanaeth cyfieithu wrth lunio, tocynnau, rhaglenni, posteri ac arwyddion
- Offer cyfieithu wrth lunio tocynnau, rhaglenni, poster ac arwyddion
- Gwybodaeth a chyngor i fusnesau am y grantiau sydd ar gael i hybu'r Gymraeg
- Gwybodaeth a chyngor i fudiadau gwirfoddol a chymunedol, cynghorau, cyrff cyhoeddus a chwmnïoedd
- Gwybodaeth am Gylchoedd Meithrin, Addysg Gymraeg a Chyrsiau Cymraeg i Oedolion
- Gwybodaeth am ddigwyddiadau cymdeithasol a chelfyddydol megis dramâu a chyngherddau
- Cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau megis diwrnodau hwyl, gigs a chwisiau

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth y canlynol:

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG·WELSH
LANGUAGE BOARD